



QWCC1-023_17C

13/06/2017

Annwyl Swyddog Cyfrifol,

Mae Cymwysterau Cymru yn cynnal adolygiad sector o gymwysterau a'r system gymwysterau mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh). Fel rhan o'r adolygiad hwn byddwn yn cynnal adolygiad technegol lle rydym am edrych ar sampl o gymwysterau TGCh a ddarperir gan Gyrrff Dyfarnu cydnabyddedig yng Nghymru. Rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar y rheini sy'n cael eu hastudio gan ddysgwyr rhwng 14 a 19 oed neu gan ddysgwyr ar brentisiaethau a ariennir yn gyhoeddus. Bydd tîm o adolygwyr arbenigol TGCh ac asesu yn edrych ar fanylebau, deunyddiau asesu, dogfennaeth sicrhau ansawdd a samplau o waith dysgwyr a aseswyd.

Diben yr adolygiad technegol hwn, fel elfen o'r adolygiad sector, yw ystyried effeithiolrwydd sampl o adnoddau asesu wrth lunio canlyniadau dilys mewn perthynas â'r cymhwyster. Byddwn yn ceisio triongli ein canfyddiadau gyda thystiolaeth o ymgysylltu â rhanddeiliaid a dysgwyr. Nid gweithgaredd cydymffurfio yw hyn yn bennaf – er, pe bai unrhyw bryderon sylweddol ynglŷn â diffyg cydymffurfio yn codi, byddai angen i ni hysbysu ein tîm Monitro a Chydymffurfio.

Er mwyn ein helpu i gynnal ein hadolygiad technegol byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu rhoi rhestr lawn i ni o'r cymwysterau TGCh rydych yn eu darparu i ddysgwyr rhwng 14 a 19 oed, a/neu ar gyfer prentisiaethau, yng Nghymru. Byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu amlygu'r cymwysterau hynny rydych yn teimlo y byddai'n fwyaf perthnasol i'w cynnwys yn ein sampl. Dylai'r rhestr gynnwys



cymwysterau sydd wedi'u dynodi ar hyn o bryd a'r rheini sydd ar fin cael eu cyflwyno i'w dynodi. Pan fyddwch yn rhestru cymhwyster sydd wedi cael ei ddiweddarau'n ddiweddar byddem yn ddiolchgar pe baech hefyd yn gallu nodi'r cymhwyster newydd a rhoi sylw byr ar y gwahaniaethau rhwng yr hen fanyleb a'r un newydd. O'r rhestrau a ddarperir gan yr holl gyrff dyfarnu perthnasol bydd Cymwysterau Cymru'n dewis sampl o gymwysterau i'w cynnwys yn ein hadolygiad technegol.

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn darparu'r wybodaeth hon erbyn 30 Mehefin 2017 fel y gallwn roi digon o rybudd i ddarparu deunyddiau os cewch eich dewis. Unwaith y byddwn wedi nodi'r sampl o gymwysterau i'w cynnwys byddwn yn gofyn am fynediad at waith dysgwyr, asesiadau wedi'u cwblhau a dogfennaeth sicrhau ansawdd - a byddwn yn ceisio cyflwyno'r ceisiadau hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 30 Mehefin.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau am gynnwys y cyfathrebiad hwn, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Cofion cynnes

Donna Hughes

Rheolwr Cymwysterau Galwedigaethol

Donna.Hughes@qualificationswales.org